**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

4 Rhagfyr 2017

Annwyl Simon

**CYLLIDEBAU AWDURDOD CYLLID CYMRU AR GYFER 2017/18 - 2019/20**

Gyda Chymru ar fin cymryd cyfrifoldeb dros y ddwy dreth ddatganoledig newydd, ysgrifennaf gyda diweddariad pellach ar y costau sy'n gysylltiedig â sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).

Ysgrifennais i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Mawrth 2017 i roi'r diweddaraf am y costau a amcangyfrifwyd ar gyfer *sefydlu* Awdurdod Cyllid Cymru. Eglurais ar y pryd fod y gost hon yn £1.3 miliwn yn 2016/17 a bod y rhagolygon yn datgan y byddai tua £3.5 miliwn yn 2017/18. Dywedais hefyd fy mod i'n disgwyl y byddai costau sefydlu pellach o £1 miliwn yn 2018/19. Ym mis Medi, cadarnheais fod yr amcangyfrifon presennol yn dangos y gellid sefydlu'r Awdurdod o fewn y ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol, (o fewn £6.3m dros gyfnod o dair blynedd).

Yn ogystal â hynny, roedd fy llythyr ym mis Mawrth yn egluro bod yr Awdurdod yn debygol o ysgwyddo costau gweithredol (hy costau rhedeg) o tua £1 miliwn yn 2017/18 ar ben y costau sefydlu. Ym mis Medi, ysgrifennais i egluro y byddai rhaid i gostau rhedeg blynyddol gwirioneddol yr Awdurdod adlewyrchu'r dyletswyddau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chasglu trafodiadau y cyfraddau uwch ar gyfer eiddo preswyl ychwanegol ac annibyniaeth weithredol yr Awdurdod.

Ymrwymais i fireinio'r amcangyfrifon o'r costau pan fyddai cerrig milltir yn cael eu cyflawni. Mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi'i sefydlu'n gyfreithiol erbyn hyn ac mae gennym ddealltwriaeth well o lawer o'r costau sefydlu a gweithredol allweddol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn talu costau prosiect gwasanaethau digidol a ysgwyddwyd eleni, rwyf wedi cytuno y gellir defnyddio'r gyllideb sefydlu gyfan sy’n weddill o £5m yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Yn gyffredinol, rwy'n dal i ddisgwyl i'r gwaith o sefydlu'r Awdurdod gael ei gwblhau o fewn y ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol, (£6.3m) a bydd y rhaglen sefydlu yn dod i ben yn awr ym mis Mawrth 2018.

Yn sgil y gofynion newydd sy'n gysylltiedig â chasglu a rheoli'r trafodiadau’r cyfraddau uwch ar gyfer eiddo preswyl ychwanegol a sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithredu'n gwbl annibynnol, mae gweithrediadau'r Awdurdod wedi dod yn fwyfwy cymhleth, ac mae ei gostau wedi cynyddu. Nid oedd y gofynion newydd hyn yn hysbys pan gytunwyd ar y ddeddfwriaeth ar gyfer sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a phan gafodd yr amcangyfrifon cychwynnol o'r costau gweithredol eu cyhoeddi.

Bydd rheoli trafodiadau’r cyfraddau uwch ar gyfer eiddo preswyl ychwanegol yn benodol yn golygu bod yr Awdurdod yn mynd i roi mesurau ar waith i ddelio, ar amcangyfrif, â 7,500 arall o drafodiadau trethadwy. Yn ôl y rhagolygon, bydd dros £65m o refeniw ychwanegol gros yn cael ei gynhyrchu ac efallai y bydd angen i'r Awdurdod weinyddu ad-daliadau o tua £15m y flwyddyn o ganlyniad i'r polisi ar eiddo preswyl ychwanegol. Bydd mesurau cydymffurfio newydd – gan gynnwys cydweithio'n agosach eto â HMRC a Revenue Scotland yn benodol – yn arbennig o bwysig wrth gasglu'r cyfraddau uwch. Mae'r cyfraddau uwch yn ystyried eiddo sydd wedi’i leoli ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'n hanfodol, felly, fod yr Awdurdod yn alluog i ymgymryd â'r math o waith cydymffurfio sydd ei angen i sicrhau bod y swm cywir o dreth yn cael ei gasglu a bod ad-daliadau yn cael eu hawlio'n briodol.


Mae gwaith datblygu pellach eleni yn golygu y bydd cyllideb weithredol yr Awdurdod yn £1,500,000. Yn ystod ei ddwy flynedd gyntaf o weithredu, 2018/19 a 2019/20, bydd yn £6,000,000 ym mhob blwyddyn. Byddaf, wrth reswm, yn cadw llygad barcud ar y cyllidebau a’u hadolygu.

Mae'r tabl isod yn crynhoi cyllideb ddiwygiedig yr Awdurdod.

| Prosiect | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| Sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru | £1,300,000 | £5,000,000 | £0 | Amh |
| Costau gweithredol ('rhedeg') ACC | | £1,500,000 | £6,000,000 | £6,000,000 |

Hyderaf fod yr uchod o gymorth.

Yn gywir



**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance